# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion Cryno : SC(3)-02-11 : 27 Ionawr 2011

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_27_01_2011&t=0

**Amser: 14.00 – 14.40**
**Lleoliad:Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Irene James, Islwyn
Brian Gibbons, Aberafan
Andrew RT Davies, Canol De Cymru
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Staff y Pwyllgor

Aled Elwyn Jones, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Brynle Williams, Angela Burns, Joyce Watson a Karen Sinclair. Daeth Andrew RT Davies, Brian Gibbons ac Alun Davies i'r cyfarfod fel dirprwyon.

### Eitem 2: Prif-ffrydio cynaliadwyedd ac ymrwymiadau Cymru'n Un: sesiwn gyda'r Gweinidog

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar brif-ffrydio cynaliadwyedd o fewn ei phortffolio.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i roi rhagor o wybodaeth am ôl-troed carbon ystadau Cymru.

### Eitem 3: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3 a 4

3.1 Cynigiodd y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod i drafod materion yn ymwneud â'r adroddiadau y mae'r pwyllgor yn bwriadu eu cyhoeddi.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

#### Eitem 4: Ymchwiliad i fioamrywiaeth: adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar gyfer yr ymchwiliad i gynllunio a'i gymeradwyo.

### Eitem 5: Papurau a nodwyd

5.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

Ymchwiliad i fioamrywiaeth : rhagor o dystiolaeth gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
SC(3)-02-11 p12